# *Can Alarus,*

YN RODDI HANES AETHUS AM

# THOMAS MORTON WILLIAMS,

*Yr hwn a laddodd ei Gariad, Harriet Wilson,*

A'I LLAW-FORWYN,

A'i claddu yn yr un Bedd, yn Nhref Wellington, yn mis Mihefin diweddaf, 1818; ac ymhen pedwar diwrnod, a laddodd ei hun, yn y carchar

GAN MORRIS ROBERTS, EIFIONYDD.

1.

YN awr, fy mwyn gyfeillion; yn union dewch yn
nes,
Gwrandewch ar hyn o hanes, er gwir wellhad ein lles,
Sydd i ni yn rhyw newydd annedwydd iawn, yn wir,
Mae'r gelyn, trwy ddrygioni, yn torri 'maes trwy'n tir.

2

Un *Thomas Morton Williams,* yw nhestun i'n y gân,
Fu'n byw heb arno ddiffyg, yn fab bonheddig glân,
Yr hwn ga'dd ei ddwyn i fynu yn hardd o deulu da,
A dweud y gwir yn gyfan, yn rhan o wlad yr ha'.

3

Yr hwn fu'n arddel crefydd ar gynnydd, digon gwir,
Gan ddwyn rhyw ffrwythau odiaeth dros helaeth amser hir,
Fel efrau ymhlith y gwenith, ga's fod o fewn y tŷ,
Nes troes, fel Judas fradwr, i wrando'r gelyn du.

4

'Roedd tri o dan 'run blaned, er trymed oedd y tro,
A'r son aeth draw am danyn' dros lawer bryn a bro;
Sef, *Thomas Morton Williams*, a *Harriet* deg ei dawn,
Ac *Ali Gibson* hefyd, fu'n byw mewn llonfyd llawn.

5.

Bu ef yn caru *Harriet* dros lawer blwyddyn hir,
Y fenyw hardda'i ymddygiad o fewn ei gwlad yn glir;
'Rol iddo ei beichiogi fe droes o'i chwmp'ni hi,
I garu menyw arall o fonedd uchel fri.

6

'Roedd c'wilydd ar ei galon wel'd *Harriet* mewn un lle,
Yn dod lle bydda'i gwymp'ni yn rodio gydag e',
Waith iddo ei beichiogi, 'roedd hynny'n w'radwydd
mawr,
A'r hen gydwybod euog, yn afriwiog lawer awr.

7.

Boddlonai hi briodi yn well na bod yn rhydd,
Cyttunoi gwrdd a'i gilydd mewn lle cyn torriad dydd,
Y ffwrdd aeth *Harriet* hawddgar, ac un llaw-forwyn
wiw,
Gael iddynt hwy gyflawni y gyfraith yn ei rhyw.

8

Cyttuno i fyn'd a wnaethant o flaen 'r offeiriad cu,
Gan ddweud, mae glan briodas yn addas iawn i ni;
Cyttuno, fel trwy gariad, i gwrdd cyn torriad dydd,
Sef, *Harriet* a'i llaw-forwyn, heb un a'i bron yn brudd.

9.

A chwrdd a'i gilydd wnaethant am ddwy awr cyn y
dydd,
Mewn ymadrodd hynod mawr syndod i ni sydd;

Ac yno erchai'r forwyn i sefyll ronyn draw,
Tra byddai fe yn siarad a *Harriet* oedd gerllaw.

10.

A *Thomas Morton Williams* arweiniai deg ei gwedd,
Gan ddweud ei deg ymadrodd ymlaen tua glan y bedd,
Dyma'r fan cei orphwys yn gymmwys hefyd gwel,
Nes clywi di 'r lleferydd yn nydd y farn a ddel.

11.

A than ei bron fe'i brathai, mae'r geiriau'n ddigon gwir,
Nes oedd ei gwaed yn llifo yn guaidd dro, yn glir.
Ni'chym'rodd ddim tosturi o'r c'ledi oedd arni hi,
Er ei bod yn gwaeddi, O! mywyd bach i mi.

12.

Pan glybu y llaw-forwyn yr ochain mawr oedd draw,
Hi redodd tuag yno a'i chalon oll mewn braw,
Hi welai *Harriet* hawddgar mewn bedd 'n y ddaear ddu,
A'i henaid, rwy'n gobeithio, yn canu gyda'r llu.

13.

A'r forwyn dd'wedai wrtho a ydych 'maes o'ch co',
Ai lladd *Miss Harriet* wnaethoch, a'i rhoi mewn bedd dan glo?
Wrth draethu'r geiriau o'i genau, fe laddai'r forwyn lon,
A'i chladdu yn 'r un beddrod a *Harriet* hynod hon.

14.

Pan wybu y cym'dogion oedd yno'n byw gerllaw,
Hwy aethant tuag yno a'i c'lonau oll mewn braw,
Daliasant *Morton Williams*, oedd yno'n wael ei wedd,
Cyn iddo orphen claddu, a chau i fynu'r bedd.

15.

Ei gym'ryd wnaed i'r carchar, dan rwymau, ddwylaw a thraed,

Nes delai dyddiau'r Sessiwn, i'w farnu am ei frad ;
Ymhen y pedwar diwrnod, mawr syndod i mi sydd,
Ca'w'd ynte' ei hun yn farw am saith ar gloch o'r dydd !

16.

Yr oedd y dyn yn gorwedd mewn gwely ar y nen,
A'r gyllell wnaeth y weithred oedd yno dan ei ben,
A'i waed oedd wedi llifo ar hyd y gwely'n lli',
Mae hyn yn rhybudd dirfawr yn awr i'n gwledydd ni.

17.

Wel, 'nawr holl ieuengctyd Cymru sy' a'u pryd ar
garu'n gu,
Gochelwch, ar bob amser, rhag myn'd fel llawer lfu ;
'Rwyf yn terfynu 'nghyffes, ffarwel f'o i'r hanes hon,
Bu cariad yn farwolaeth i lawer geneth lon.

18.

Y cyngor wyf fi'n rhoddi cyn ymddibenu a'm can,
I ffoi at Grist yn union yn fawrion ac yn fân ;
Mae angeu 'n nelu saethau mewn grym, a'i gleddau glas,
At Dduw, O ffown yn sydyn, mewn grym i 'mofyn
gras.

DIWEDD.

J. James, Argraphydd, Merthyr Tydfil.

20523372 3